**Pwyllgor Diwylliant - CC-18-01(p.3)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 21 Tachwedd 2001 |
| **Amser:** | 9.00am-12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol |

**ELWA - TYSTIOLAETH I'R PWYLLGOR DIWYLLIANT**

**CYFLWYNIAD**

Rhoddir y dystiolaeth hon ar ran y ddau Gyngor sy'n gweithio mewn partneriaeth fel ELWa, sef Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Ffurfiwyd y Cyngor Cenedlaethol ym mis Ebrill eleni, drwy ddwyn ynghyd y rhan fwyaf o gyfrifoldebau Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru (CCABC), y pedwar Cyngor Hyfforddi a Menter (CHM) yng Nghymru a Chyngor CHMau Cymru, a'r cyfrifoldebau a arferai fod gan yr awdurdodau lleol dros addysg oedolion ac addysg barhaus. Mae'n gyfrifol am gyllido, cynllunio, diogelu a hyrwyddo addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru, ac eithrio addysg uwch. Bydd hefyd yn cymryd cyfrifoldeb dros gyllido darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion o fis Ebrill 2002. Mae'r Cyngor Cenedlaethol yn ymgynghori ar ei strategaeth gorfforaethol ddrafft am y deng mlynedd nesaf ac yn adolygu'r rhaglenni a etifeddwyd ganddo. Bydd ei Strategaeth Gorfforaethol a Chynllun Corfforaethol arfaethedig yn cael eu cyflwyno i'r Cynulliad i gael eu cymeradwyo ym mis Rhagfyr.

Mae dwyieithrwydd wedi cael ei ddynodi'n un o themâu cyffredinol y Cyngor Cenedlaethol yn ei strategaeth gorfforaethol ddrafft. Mae'r strategaeth ddrafft yn cydnabod yr angen i gynyddu galw a gwella cyfleoedd ar gyfer dysgu dwyieithog ôl-16 ac i ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i ddeall y patrymau galw yn well.

Mae'r Cyngor Addysg Uwch yn gyfrifol am gyllido sefydliadau addysg uwch Cymru, gan gynnwys addysgu, ymchwil a gwaith allanol 'trydedd genhadaeth', a darpariaeth addysg uwch mewn colegau addysg bellach. Mae'r Cyngor Addysg Uwch wedi cyflwyno tystiolaeth i'r adolygiad o addysg uwch yng Nghymru sy'n cael ei gynnal gan Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad Cenedlaethol, a gynhwysodd drafodaeth ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Rhoddwyd tystiolaeth ar y pwnc hefyd gan unigolion a chyrff eraill. Felly mae'n bosibl y bydd yr adroddiad terfynol yn cynnwys argymhellion sy'n berthnasol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor Addysg Uwch wedi gwneud adolygiad sylfaenol o'i bolisïau mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch, gan arwain at

gyflwyno polisïau newydd yn 2000/01. Mae’r rhain yn canolbwyntio ar annog sefydliadau i gynllunio eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ffordd strategol ac ar ddatblygu cydweithio a rhwydweithio yn y sector, yn ogystal â darparu cyllid sylweddol i gefnogi’r nodau hyn. Er y bydd yn cymryd peth amser i’r datblygiadau newydd hyn arwain at gynnydd mewn cofrestriadau cyfrwng Cymraeg, bu’r cynnydd hyd yn hyn yn galonogol.

Mae’r ddau Gyngor wedi nodi y gallant weithio gyda’i gilydd ym maes dysgu ieithoedd yn fwy cyffredinol, yn nhermau dilyniant, adnoddau a thechnoleg.

Mae’r Cynghorau hefyd yn paratoi Cynllun Iaith Gymraeg ar y cyd, yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg. Gobeithir ei chyflwyno ym mis Mai 2002.

Rhagwelir y bydd y Cyngor Addysg Uwch a’r Cyngor Cenedlaethol yn cael eu gwahodd i roi tystiolaeth i’r adolygiad o’r iaith Gymraeg a gynhelir cyn bo hir gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Gellir disgwyl i’r adolygiad hwn hefyd gael effaith ar ddatblygiad polisïau ELWa yn y maes hwn.

## CEFNDIR

Mae gan y Cyngor Addysg Uwch a’r Cyngor Cenedlaethol (yn rhinwedd yr hyn a etifeddwyd gan CCABC) bolisïau i gefnogi ehangu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn y sectorau addysg uwch ac addysg bellach. (Gweler Atodiad 1.)

Fel rhan o’r broses ymgynghori ar strategaeth gorfforaethol ddrafft y Cyngor Cenedlaethol, galwyd Grwp Ffocws Dysgu Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog ar 7/8 Tachwedd 2001 i drafod gweithgareddau yn y gorffennol a’r presennol ac i gynhyrchu syniadau ar gyfer datblygiadau pellach. Gellir crynhoi asesiad y Grwp Ffocws o’r sefyllfa gyffredinol fel a ganlyn: mae ysgolion yn gwneud cynnydd, mewn addysg bellach dim ond cyfran fach o asesiadau a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg (rhoddir y ffigurau yn Atodiad A), ac mewn hyfforddiant yn-y-gwaith nid oes fawr ddim darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ffurfiol. Dyma’r etifeddiaeth y bydd y Cyngor Cenedlaethol yn adeiladu arni.

Mae gweddill y papur hwn wedi’i seilio ar waith y Grwp Ffocws a fu’n ystyried gwaith y Cyngor Cenedlaethol yn y maes hwn yn bennaf ond a roddodd sylw hefyd i faterion perthnasol mewn addysg uwch, gan wneud argymhellion ar gyfer y dyfodol. Nid yw’r materion a godwyd wedi cael eu hystyried gan y Cynghorau eto. Mae’r Pwyllgor yn ymwybodol o’r ffaith bod y Cyngor Cenedlaethol yn nyddiau cynnar ei ddatblygiad. Bydd rhai o’r newidiadau i bolisi yn cael eu gweithredu drwy’r system gyllido genedlaethol newydd a ddaw i rym yn 2003. Yn y cyfamser, bwriad y Cyngor Cenedlaethol yw gweithredu projectau peilot i ddarganfod sut y gall wneud defnydd mwy effeithiol o gyllid i sicrhau cyfleoedd dysgu gwell. Caiff dysgu dwyieithog a dysgu cyfrwng Cymraeg eu hystyried yn ystod y cyfnod hwn.

## MEYSYDD ALLWEDDOL AR GYFER DATBLYGIADAU POLISI

**Arweinyddiaeth**

Credai'r Grwp Ffocws yn gryf y dylai ELWa gymryd rôl arweiniol yn y gwaith o ddatblygu'r agenda addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ôl-16. Yn y modd hwn gellid datblygu strategaeth genedlaethol a fframwaith polisi eglur a fyddai'n:

- rhoi cyfeiriad ac arweiniad i'r holl chwaraewyr allweddol;
- gwella cydlynu rhwng darparwyr a chyrff eraill;
- gwella lledaenu a sefydlu arfer da; ac yn
- ysgogi syniadau dynamig ac arloesol.

**Cydlynu**

Roedd y Grwp Ffocws o'r farn bod angen adnodd arbenigol cydnabyddedig o dan nawdd ELWa, er nad oedd angen iddo gael ei leoli o fewn ELWa o anghenraid. Byddai'r gronfa hon o arbenigedd yn gyfrwng gweithredol ar gyfer gwireddu nodau polisi a byddai'n sicrhau bod cydlynu effeithiol ac is-strwythur priodol a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n dda.

**Materion Datblygu**

Credir mai'r prif feysydd ar gyfer datblygu polisi fydd:

Staff Addysgu / Hyfforddwyr

Mae prinder staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. I fynd i'r afael â hyn bydd angen cynyddu'r gyfran o staff/hyfforddwyr Cymraeg eu hiaith a recriwtir a darparu hyfforddiant a chymorth i staff newydd a'r staff presennol i'w galluogi i ennill yr hyder a'r medrau sydd eu hangen i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynyddu Galw ac Ymwybyddiaeth

Byddai llwyddo i greu Cymru ddwyieithog, ac anghenion yr economi, cymunedau ac unigolion, yn arwain at alw mawr am sgiliau ac addysg iaith Gymraeg. Mae tystiolaeth gan gyflogwyr eisoes yn dangos bod dwyieithrwydd yn bwysig yn economaidd. Dengys gwaith a wnaed gan Cwmni Iaith a'r Mentrau Iaith fod cyflogwyr yn chwilio fwyfwy am weithwyr â sgiliau dwyieithog. Serch hynny, nid adlewyrchir hyn yn y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn addysg bellach ac uwch neu hyfforddiant gwaith-gysylltiedig cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Mae llawer rheswm am hyn. Un o dasgau pwysicaf ELWa yw cynyddu galw gan fyfyrwyr a hyfforddeion i gyd-fynd â'r angen. Mesurau posibl yw adeiladu ar broject Gorwelion Menter a Busnes[1] i ddangos

gwerth sgiliau iaith i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith.

Bydd gan Gyfarwyddiaeth Cyfathrebiadau a Chyfranogiad newydd ELWa ran bwysig i'w chwarae mewn codi ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd.

Darpariaeth

Ar ôl buddsoddi'n drwm mewn addysg Gymraeg a chyfrwng Cymraeg fel rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol, mae'n hanfodol sicrhau darpariaeth i fyfyrwyr pan ânt i mewn i'r sector ôl-16.

Mae yna gred gyffredinol nad yw'r cwricwlwm cenedlaethol cyn-16 yn datblygu sgiliau llafar yn llawn. Mae'r rhaglen Cymraeg i Oedolion ôl-19 yn meithrin sgiliau llafar ond mae bwlch yn y ddarpariaeth ar hyn o bryd ar gyfer y grwp oedran 16-19. Mae angen gwella rhugledd yn yr iaith ymhlith y grwp hwn fel eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn well yn eu bywyd a'u gwaith beunyddiol. Gallai hyn fod yn arbennig o fuddiol i fusnesau y mae ganddynt berthynas uniongyrchol â'u cwsmeriaid. Gallai hefyd roi iddynt yr hyder a'r gallu i astudio'n ddwyieithog, gan gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys dilyniant i addysg uwch.

Mae yr un mor bwysig i roi sylw i'r gostyngiad mewn cyfranogiad rhwng y gwahanol gyfnodau addysg oherwydd nad yw myfyrwyr yn ystyried ei bod hi'n werth aros o fewn y system cyfrwng Gymraeg. Bydd angen gwneud gwaith ymchwil yn y dyfodol i'r rhesymau am hyn[2], gan gynnwys effaith bosibl darpariaeth ôl-16 ar gyfranogiad cyn-16.

O fis Ebrill 2002, bydd y Cyngor Cenedlaethol yn cyllido'r chweched dosbarth mewn ysgolion. Mae'r dimensiwn ychwanegol hwn yn atgyfnerthu'r angen i ELWa ddatblygu modelau cyflwyno darpariaeth sy'n adlewyrchu proffiliau ieithyddol y gwahanol rannau o Gymru. Agwedd allweddol ar hyn yw rôl y Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant mewn cynllunio lleol, gan gynnwys yr angen i ystyried materion a datrysiadau traws-ffiniol.

Adnoddau Dysgu

Argymhellodd y Grwp Ffocws y dylid buddsoddi'n drwm mewn adnoddau dysgu. Ar wahân i ddeunydd traddodiadol, rhaid elwa ar y cyfleoedd a gynigir gan TGC. Mae angen ymagwedd strategol i wneud hyn yn dda.

Datblygu Pedagogaeth

Mae'r nifer fawr o bobl ddwyieithog yng Nghymru yn cynnig sylfaen ardderchog ar gyfer datblygu medrau amlieithog yn y boblogaeth, a fydd yn dod â manteision economaidd. Mae cyfle i ddefnyddio'r profiad o addysgu dwyieithog Cymraeg / Saesneg yn fainc arbrofi ar gyfer datblygu pedagogaeth ail iaith effeithiol yn fwy eang.

Data ac Ymchwil

Er bod llawer o ddata ar gael mae bylchau pwysig yn ein gwybodaeth. Mae'n hollbwysig inni gasglu data mewn ffordd gydlynol a chynhwysfawr ar draws pob agwedd ar fywyd Cymreig, nid y gyfundrefn addysg yn unig. Er mwyn gallu datblygu polisi mae'n rhaid gwneud ymchwil drylwyr a chasglu tystiolaeth helaeth.

Targedau

Bydd angen gosod targedau uchelgeisiol ond realistig a nodi'n glir yr adnoddau y bydd angen eu darparu i gyflawni'r targedau hyn.

**CASGLIADAU**

Bydd dau Gyngor ELWa yn dymuno ymateb yn egnïol a grymus i'r her, gan adeiladu ar y sylfeini a osodwyd eisoes. Y sialens arbennig yw cynyddu galw a chyflenwad mewn cydbwysedd cynaliadwy yn ystod y blynyddoedd i ddod er mwyn cwrdd ag anghenion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru, a blaenoriaethau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae gan syniadau'r Grwp Ffocws oblygiadau dynol ac ariannol. Ni ellir dweud beth fydd y rhain hyd nes i'r ddau Gyngor lunio strategaethau a pholisïau.

[1] Arolwg ymhlith cyflogwyr a wnaed mewn rhannau o Gymru i ddarganfod y sgiliau dwyieithog yr oedd eu hangen ac i ddarparu deunydd ar gyfer y gwasanaeth gyrfaoedd ar sail hyn.

[2] Mae ymchwil ar y gweill eisoes yn Uned Addysgu Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru i'r rhesymau am y diffyg galw mewn addysg uwch. Mae ymchwil gan Ganolfan Bedwyr a gomisiynwyd gan CCABC wedi awgrymu rhai o'r ffactorau mewn perthynas â darpariaeth AB.

**Atodiad 1 (a)**

**Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-16 (ac eithrio addysg uwch)**

## 1. Y Cyngor Cenedlaethol - Polisïau a Chyllido a etifeddwyd

Mae'r Cyngor Cenedlaethol wedi etifeddu cymysgedd o gynlluniau i gefnogi addysg a hyfforddiant iaith Gymraeg yn y sector ôl-16, fel a ganlyn:

- **Darpariaeth Cymraeg i Oedolion (CiO)** - cyllidir hon yn gyfan gwbl gan y Cyngor Cenedlaethol ac mae amrywiaeth eang o ddarparwyr ynghlwm wrtho, gan weithio gyda'i gilydd mewn consortia CiO. Fel y dengys yr enw, nod y ddarpariaeth hon yw dysgu Cymraeg i oedolion, a bydd swm o £3.1m yn cael ei wario yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

- **Swyddog Cenedlaethol dros CiO ac arholiadau CiO** - darperir £100k y flwyddyn i dalu cyflog Swyddog Cenedlaethol i ddatblygu CiO, ac i dalu am arholiadau ar gyfer dysgwyr.

- **Uned Dwyieithrwydd** - bydd £55k ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol ar gyfer yr Uned Sgiliaith newydd yng Ngholeg Meirion-Dwyfor. Sefydlwyd yr Uned i wasanaethu sefydliadau addysg bellach drwy ddatblygu adnoddau dysgu a chynnig hyfforddiant a chyngor ar fethodolegau addysgu dwyieithog. Bydd yn awr yn cofleidio darpariaeth ôl-16 yn ei hystyr ehangach, drwy weithio â'r chweched dosbarth mewn ysgolion a darparwyr eraill.

- **Darpariaeth ôl-16 ddwyieithog** - neilltuwyd £1.69m o gyllid premiwm ar gyfer 2001/02 i gyllido sefydliadau AB sy'n darparu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog. Mae hyn yn ychwanegol at yr uned gyllido safonol. Disgwylir y bydd cyfanswm o £10 miliwn yn cael ei ddyrannu i golegau AB ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Dyrennir yr arian drwy'r Fethodoleg Cyllid Rheolaidd, sy'n cael ei hadolygu. Disgwylir y bydd newidiadau mawr i'r fethodoleg wedi cael eu gweithredu erbyn yr Hydref 2003.

- **Defnyddiau Dwyieithog drwy'r Project Rhyngrwyd** - bydd £100k ar gael i Dysg i reoli'r project hwn sy'n cynhyrchu deunyddiau dysgu newydd ar gyfer y we. Yr un fath â'r Uned Sgiliaith, bydd y project yn awr yn cwmpasu'r sector ôl-16 ehangach.

## 2. Ffynonellau gwybodaeth

Mae sawl ffynhonnell gwybodaeth a all fod o gymorth i ddatblygu polisi yn y dyfodol:

**Cyllido Darpariaeth AB Ddwyieithog a Chymraeg (Ymchwil gan Ganolfan Bedwyr ar ran CCABC)**

Wedi'i chomisiynu gan y Cyngor Cyllido Addysg Bellach ym 1999/2000, bu'r ymchwil hon yn ystyried sut y caiff darpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog AB ei chyllido a daeth i'r casgliad nad oedd y fethodoleg bresennol wedi ysgogi twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Awgrymodd resymau:

- nid yw'r fethodoleg yn mynd i'r afael â'r diffyg go iawn mewn adnoddau dysgu ac mae gwneud iawn am y diffyg yn araf a drud;

- nid oes digon o staff sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;

- lle nad yw addysg cyfrwng Cymraeg yn weithgaredd creiddiol, nid yw'n cael llawer o gydnabyddiaeth yn y sefydliadau ac felly rhoddir blaenoriaeth isel iddi; ac

- amharodrwydd rhai myfyrwyr i ddilyn cyrsiau dwyieithog am wahanol resymau megis: pwysau cyfoedion; awydd i dorri cysylltiadau â 'thraddodiadau ysgol'; y gred bod cyrsiau Cymraeg yn golygu mwy o waith, efallai oherwydd diffyg deunyddiau dysgu a'r ffaith bod rhy ychydig o gyrff dyfarnu yn cynnig profion/arholiadau yn y Gymraeg; a diffyg hyder myfyrwyr yn eu gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg.

Rhoddodd yr ymchwilwyr sylw i'r premiwm ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y fethodoleg cyllid rheolaidd ac i fodelau cyllido eraill. Daethpwyd i'r casgliad y dylid cymryd i ystyriaeth ffactorau cymdeithasegol ehangach yn ogystal â nifer y myfyrwyr ar gyrsiau, mathau o gymwysterau, nifer y cyrsiau, costau is-strwythur ac ati. Yn ogystal, awgrymwyd y dylai taliadau adlewyrchu'r dulliau addysgu a ddefnyddir (dadansoddwyd sawl model) er mwyn hybu'r arfer gorau. Derbyniwyd yr adroddiad gan CCABC yn gynnar yn 2000 ac mae ar gael ar wefan CCABC. Cymerir yr argymhellion i ystyriaeth wrth ddatblygu'r system gyllido genedlaethol newydd, a hefyd wrth ddatblygu strategaeth a pholisïau'r Cyngor Cenedlaethol.

**Parhad mewn Addysg Cyfrwng Cymraeg (Bwrdd yr Iaith Gymraeg)**

Darganfu'r ymchwil hon a wnaed ym 1999 fod dyfodol y Gymraeg yn dibynnu ar allu'r system addysg i greu siaradwyr er mwyn cynnal y gyfran bresennol o siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth (18.7% yn ôl cyfrifiad 1991) neu ei chynyddu. Adroddodd fod 20.9% o ddisgyblion ysgol gynradd yn mynd i ysgolion lle mae'r ddarpariaeth yn cael ei haddysgu'n gyfan gwbl, yn bennaf neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg, ond bod y gyfran yn disgyn i 12.9% mewn ysgolion uwchradd. Mewn sefydliadau AB, cafodd llai na 2% o fyfyrwyr eu hasesu yn y Gymraeg (nid oedd ystadegau ar gael ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth, felly mae'r wir ganran yn sicr o fod yn uwch). Mae'r data hyn yn cuddio amrywiadau rhanbarthol, rhai da a rhai drwg, ond, gan mai 12.9% yn unig o ddisgyblion at ei gilydd sy'n cwblhau eu haddysg hyd at 16 oed yn y Gymraeg, mae'n golygu nad yw digon o siaradwyr Cymraeg yn cael eu creu i gynnal y ganran

bresennol ym mhoblogaeth Cymru.

**Astudiaeth o’r Angen am Sgiliau Iaith Cymraeg/Dwyieithog mewn Mentrau Bach a Chanolig yng Ngogledd Cymru ac Awgrymiadau ar gyfer Datblygiad a Hyfforddiant Adnoddau Dynol mewn perthynas â’r Gymraeg (Cwmni Iaith ar gyfer Celtec)**

Wedi’i gomisiynu gan Celtec (2001), daeth yr adroddiad i’r casgliad na fuasai cymorth ar gyfer hyfforddiant cyfrwng Cymraeg mor effeithiol ag y gallasai fod: roedd prinder cynlluniau i gefnogi hyfforddiant a darpariaeth a methiant i sicrhau bod hyfforddiant Cymraeg yn cael ei ddarparu yn ôl y galw neu ei hwyluso gan ddarparwyr (er bod Celtec yn disgwyl bod gan ei ddarparwyr bolisi iaith Gymraeg). Darganfuwyd bod galw gan gyflogwyr am sgiliau iaith Gymraeg mewn busnes ond nad yw darparwyr hyfforddiant yn cynnig y math o ddarpariaeth Gymraeg sy’n ofynnol i gwrdd ag anghenion yr economi. Gan edrych i’r dyfodol, argymhellodd yr adroddiad, ymhlith llawer o bethau eraill, y dylai ELWa:

- ymateb i anghenion lleol drwy weithio gyda phartneriaethau strategol a lleol;
- sicrhau bod darparwyr yn ymwybodol o ofynion ELWa;
- sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o fanteision medru’r Gymraeg ac o’r galw am siaradwyr Cymraeg ymhlith cyflogwyr;
- cydlynu datblygu adnoddau a chael darparwyr i gydweithio; a
- chefnogi datblygu cwrs sgiliau allweddol mewn cyfathrebu dwyieithog - sy’n orfodol/yn cael ei argymell yn gryf ar gyfer pob hyfforddai.

**Tystiolaeth Ystadegol**

Rhoddir data yn Atodiad A am ddarpariaeth ddwyieithog/cyfrwng Cymraeg ac yn Atodiad B am Gymraeg i Oedolion.

Mae’n amlwg o Atodiad A:

- bod nifer y sefydliadau sy’n cynnig cyrsiau o’r fath yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ond bod y rhan fwyaf o’r ddarpariaeth yn cael ei chynnig gan chwe sefydliad yng ngogledd a gorllewin Cymru;
- bod nifer y myfyrwyr ar y cyrsiau hyn a asesir yn y Gymraeg wedi cynyddu <u>ond bod y cyfanswm yn fach iawn</u>;
- bod y nifer a asesir yn y Gymraeg/yn ddwyieithog, fel canran o’r holl fyfyrwyr ar y cyrsiau

hyn, wedi gostwng; a

- bod canran yr holl fyfyrwyr ar gyrsiau wedi'u cyllido gan CCABC a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog yn isel iawn.

Mae'n amlwg o Atodiad B i nifer y myfyrwyr ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion:

- dyfu'n sylweddol rhwng 1994/95 a 1999/2000 er y bu gostyngiad yn 2000/01. Mae'n rhy gynnar i ddweud ai anhawster dros dro yw'r gostyngiad hwn neu a yw'n arwydd o duedd dymor hir; ac

- oherwydd y dull o gasglu data, nad yw'n bosibl dadansoddi dilyniant dysgwyr ond bod tystiolaeth gref o ffynonellau eraill mai cyfran fach yn unig o fyfyrwyr sy'n dod yn rhugl.

**Atodiad A**

## Cyrsiau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog mewn sefydliadau addysg bellach

| Blwyddyn Academaidd | 1993/94 | 1994/95 | 1995/96 | 1996/97 | 1997/98 | 1998/99 | 1999/2000 | 2000/01 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| Nifer y sefydliadau a ddarparodd gyrsiau | 17 | 16 | 19 | 19 | 17 | 11 | 12 | 15 |
| Nifer y myfyrwyr cofrestredig a aseswyd yn y Gymraeg | 2023 | 2288 | 2830 | 5550 | 4431 | 3503 | 4895 | 5483 |
| Nifer y myfyrwyr cofrestredig ar yr un cyrsiau na chawsant eu hasesu yn y Gymraeg | 1882 | 2346 | 3875 | 5498 | 4521 | 6821 | 6232 | 6022 |
| Asesiadau Cymraeg fel % o'r holl gofrestriadau ar y cyrsiau hyn | 51.8% | 49.4% | 42.2% | 50.2% | 49.5% | 33.9% | 44.0% | 47.7% |
| Cyfanswm y cofrestriadau a gyllidwyd gan CCABC/Cyngor Cenedlaethol | 136468 | 193735 | 255039 | 298873 | 304348 | 308381 | 353972 | 435106 |
| Asesiadau Cymraeg fel % o gyfanswm y cofrestriadau a gyllidwyd gan CCABC/Cyngor Cenedlaethol | 1.5% | 1.2% | 1.1% | 1.9% | 1.5% | 1.1% | 1.4% | 1.3% |

*Ffynhonnell data: MIDFESS C*

**Atodiad B**

## Cofrestriadau wedi'u cyllido ar gyrsiau CiO rhwng 1994/95 a 2000/01

| Blwyddyn Academaidd | **1994/95** | **1995/96** | **1996/97** | **1997/98** | **1998/99** | **1999/00** | **2000/01** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cofrestriadau a gyllidwyd | 15894 | 18966 | 20762 | 21643 | 21500 | 23634 | 21011 |

*Ffynhonnell: MCRh (cyllidadwy Ffurflen C – y gorau o FEES/MIDFESS gan gynnwys rhagfynegiadau)*

*Cafwyd 1994/95 a 1995/96 drwy hidlo yn ôl pwnc [pwnc astudio]='Q520' a maes rhaglen AB=18A. Nid oedd unrhyw ddata ar ddarpariaeth noddedig ar gyfer 1995/96.*

*Seilir data 1996/97 ar gofrestriadau lle mae [maes rhaglen]=1BA a [côd uwchddosbarth]=FK.357*

**Atodiad 1 (b)**

## Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Uwch

### 1. Cofrestriadau

1.1 Mae'r nifer o gofrestriadau cyfrwng Cymraeg a gofnodwyd wedi aros yn weddol sefydlog yn ystod y pum neu chwe blynedd diwethaf, sef oddeutu 1,000 o fyfyrwyr amser-llawn, er y bu peth amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Felly, y ffigurau ar gyfer 1999/2000 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae gennym ffigurau ar ei chyfer) oedd 1,044 o gofrestriadau cyfwerth ag amser-llawn. Dylid nodi bod y ffigur hwn yn cynrychioli nifer fwy o fyfyrwyr (tua 1,500), gan nad yw llawer o fyfyrwyr yn cymryd y cyfan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. (Atodiad C)

### 2. Y Cyngor Addysg Uwch - Polisïau a Chyllido

2.1 Bydd y Cyngor Addysg Uwch yn hybu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch mewn tair prif ffordd:

## 3. Premiwm cyfrwng Cymraeg

- Telir y premiwm am gofrestriadau ar gyrsiau/modiwlau cyfrwng Cymraeg ac mae'n gyfwerth â phwysedd o 0.26 ar yr uned adnodd safonol. Fe'i cyfrifir drwy gyfartaleddu Data yr AYAU (Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch) am y cyfnod dwy-flynedd diweddaraf sydd ar gael. Felly seilir dyraniadau 2001/02 ar ddata 1998/99 a 1999/00.

- Dyrennir cyfanswm o £1.1 miliwn yn 2001/02 i ddeg sefydliad, sef tri yn fwy na'r llynedd. Y rheswm am y cynnydd mae'n debyg yw bod sefydliadau'n sylweddoli ei bod o fantais iddynt gofnodi eu cofrestriadau cyfrwng Cymraeg yn fanwl gywir er mwyn bod yn gymwys i dderbyn cyllid premiwm a chyllid o'r gronfa darpariaeth cyfrwng Cymraeg (gweler isod). Mae dyraniadau i Brifysgol Cymru, Aberystwyth, Prifysgol Cymru, Bangor a Choleg y Drindod Caerfyrddin yn cyfrif am £1.01m o'r swm hwn. Bydd Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd yn derbyn £70,000.

- Bydd dyraniadau llai (rhwng £1,000 a £10,000) yn cael eu gwneud i Brifysgol Morgannwg, Prifysgol Caerdydd, PC Llanbedr, PC Abertawe, CPC Casnewydd a Choleg Cerdd a Drama Cymru.

- Mae cofrestriadau hyfforddiant cychwynnol athrawon yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r dyraniadau premiwm.

- Pwrpas y premiwm yw cydnabod y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai hefyd fod yn ysgogiad i annog sefydliadau i gynyddu nifer eu cofrestriadau, a, lle mae nifer dda o fyfyrwyr, i ddarparu llwyfan ar gyfer datblygiadau pellach.

## 4. Y gronfa darpariaeth cyfrwng Cymraeg

- Sefydlwyd y gronfa yn 2000/01. Gwneir dyraniadau i'r sefydliadau pro-rata ar sail eu cofrestriadau cyfrwng Cymraeg. Cyn rhyddhau cyllid iddynt, rhaid i'r sefydliadau gyflwyno strategaethau cyfrwng Cymraeg derbyniol ar gyfer cynnal, datblygu ac estyn eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dyrennir £284,000 yn 2001/02, sef cynnydd o bron 12% ar 2000/01.

- Gwneir dyraniadau ar sail strategaethau er mwyn annog sefydliadau i fabwysiadu ymagwedd dymor hir at gynllunio datblygiad eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn hytrach na'u bod yn gorfod cystadlu am gyllid o gronfeydd tymor byr.

- Unwaith eto, PC Aberystwyth, PC Bangor a Choleg y Drindod sy’n derbyn y prif ddyraniadau.

- Os bydd sefydliadau’n cyrraedd nifer lleiafswm o gofrestriadau (1 cofrestriad cyfwerth ag amser-llawn) cynigir darpariaeth isafswm o £10,000. Mae chwe sefydliad yn gymwys yn 2001/02 - P Morgannwg, P Caerdydd, PC Llanbedr, PC Abertawe, CPC Casnewydd a CCDC. Er y gall ymddangos fod y trothwy yn isel, gall gynrychioli nifer go fawr o fyfyrwyr gan fod data’n cael eu cofnodi ar sail modiwlau. Bwriedir i’r ddarpariaeth isafswm helpu’r sefydliadau hyn i ddatblygu pocedi o ddarpariaeth sy’n bodoli eisoes, a all fod mewn marchnad *niche* a wasanaethant yn arbennig o dda.

## 5. Uned Addysgu Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru

- Yn 2000 sefydlodd Prifysgol Cymru uned addysgu cyfrwng Cymraeg ar ran y sector cyfan (nid PC yn unig). Ei phwrpas yw cynyddu nifer y myfyrwyr sy’n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac estyn yr amrywiaeth o ddarpariaeth sydd ar gael. Bydd yn cyflawni hyn yn bennaf drwy hyrwyddo a marchnata darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddarpar fyfyrwyr, annog mwy o gydweithio rhwng y sector, a datblygu darpariaeth newydd. Mae’r Cyngor yn darparu oddeutu £50,000 y flwyddyn, am ddwy flynedd i ddechrau, ond gyda’r posibilrwydd o estyniad ar ôl adolygu cynnydd. Bydd y sefydliadau yn cyfrannu at gyllido’r uned hefyd. Mae Prifysgol Cymru wedi cyflwyno tystiolaeth i’r Cynulliad Cenedlaethol yn ddiweddar ar sut y gellid datblygu rôl yr Uned ymhellach.

## 6. Gweithgareddau Eraill

6.1 Yn ogystal, mae’r Cyngor Addysg Uwch yn hybu’r gweithgareddau cysylltiedig hyn:

<u>Hyfforddiant cychwynnol athrawon</u>

- Mae swm o £126,000 wedi cael ei ddarparu gan y Cyngor ar gyfer y project HATT (Hyfforddi Athrawon/Teacher Training) i ddatblygu TAR dysgu agored a dysgu o bell ddwyieithog yng Nghymru. Datblygir y project gan gonsortiwm o sefydliadau (Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Prifysgol Cymru, Bangor, Prifysgol Cymru Abertawe).

- Mae’r Cyngor hefyd wedi darparu £14,500 ar gyfer project Cymru-gyfan i ddatblygu hyfforddiant ar gyfer mentoriaid cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion. Cydlynir y project gan

PC Aberystwyth ac mae bron wedi'i gwblhau.

- Bydd y Cyngor yn darparu oddeutu £200,000 y flwyddyn i hybu dysgu sgiliau gan athrawon dan hyfforddiant fel y gallant addysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cynradd cyfrwng-Saesneg.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

- Bydd ein swyddogion yn cadw mewn cysylltiad cyson â Bwrdd yr Iaith i drafod materion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Ar hyn o bryd mae hyn yn cynnwys, yn arbennig, annog sefydliadau i ddatblygu eu strategaethau cyfrwng Cymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg ochr yn ochr er mwyn sicrhau cysondeb a chydlyniant.

Geiriadur Prifysgol Cymru

- Er nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig ag addysgu cyfrwng Cymraeg, bydd y Cyngor yn rhoi cymorth ariannol i Fwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru. Yn 2001/02, bydd y grant (£132,720) ychydig yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol gan y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith ar y geiriadur wedi'i gwblhau, a chynnal a diweddaru fydd y prif waith wedi hynny.

Cronfa datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg gynharach

- Rhwng 1994 a 1999 darparodd y Cyngor £500,000 fel rhan o'r Gronfa datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn sgil proses gynnig gystadleuol, câi cyllid ei ddyfarnu am brojectau i estyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a oedd yn bod eisoes neu i ddatblygu darpariaeth newydd. Er i asesiad o'r gronfa ddangos y bu nifer o ddatblygiadau gwerthfawr, roedd angen ymagwedd fwy strategol - sy'n egluro'r penderfyniad i wneud dyraniadau ar sail strategaethau.